# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 9 Rhagfyr 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Yng ngoleuni'r ffaith bod adran 91 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wedi'i diddymu gan adran 49 o Ddeddf Addysg 2002, pa ddarpariaethau statudol sy'n bodoli i ganiatáu i ysgolion gwirfoddol a gynhelir, ac sydd â chymeriad crefyddol, ddiogelu'r cymeriad hwnnw trwy eu polisi mynediad. (WAQ21194)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi canllawiau newydd yng ngoleuni'r ffaith y diddymwyd adran 91 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. (WAQ21195)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig*

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r Sioe Frenhinol, ac os felly, faint o arian a fyddant yn ei ddarparu. (WAQ21196)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyddiad y bydd y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yn dod i rym. (WAQ21184)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa ddarpariaeth y mae'r Cynulliad wedi'i pharatoi er mwyn casglu anifeiliaid marw oddi wrth ffermwyr Cymru, ar sail deddfwriaeth yr UE sy'n gwahardd claddu anifeiliaid ar y fferm. (WAQ21185)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o gwmnïau ledled Cymru a fydd yn derbyn trwydded i gasglu anifeiliaid marw. (WAQ21186)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Os nad oes digon o losgyddion ar gael yng Nghymru, a wnaiff y Cynulliad Cenedlaethol ddarparu cymorth ariannol i losgi anifeiliaid marw. (WAQ21187)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa ddeddfwriaeth fydd yn sicrhau bod y gwaith o gasglu anifeiliaid marw yn cydymffurfio â'r rheolau ar atal clwy'r traed a'r genau, os bydd deddfwriaeth

o'r fath yn bodoli o gwbl. (WAQ21188)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A fydd angen lorïau wedi'u selio ar gyfer casglu anifeiliaid marw. (WAQ21189)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A fydd yn rhaid cael trwyddedau er mwyn casglu anifeiliaid marw o fwy nag un safle. (WAQ21190)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Ar gyfartaledd, faint o anifeiliaid marw y bydd yn rhaid eu casglu bob dydd oddi wrth ffermwyr Cymru. (WAQ21191)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o anifeiliaid y gellir eu llosgi yng Nghymru bob dydd ar hyn o bryd. (WAQ21192)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa ddarpariaethau sy'n bodoli er mwyn cael gwared ar y llwch o losgyddion. (WAQ21193)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adeiladu llosgyddion yng Nghymru, a'r modd y cânt eu lleoli'n strategol. (WAQ21197)